**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

—

**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Y Gwir Anrh. Steve Barclay AS
Yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

13 Mawrth 2024

Annwyl Ysgrifennydd Gwladol

## Deialog ac ymgysylltu rhyngweinidogol

Yn ystod ein sesiwn graffu gyffredinol ar 6 Mawrth ar waith Lesley Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd yn Senedd Cymru, dywedodd y Gweinidog na chafwyd cyfarfod o'r Grŵp Rhyngweinidogol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (IMG EFRA) ers y cyfnod y bu'ch rhagflaenydd, Thérèse Coffey, yn Ysgrifennydd yr Amgylchedd. Roedd yr Aelodau'n bryderus iawn o glywed hyn gan fod y Pwyllgor o'r farn bod deialog rhynglywodraethol yn bwysig i'r gwaith o ddatblygu a gweithredu polisi da.

Pan holwyd hi am ffliw adar a'r gwaith o ddosbarthu a marchnata wyau buarth o ganlyniad i'r ffaith bod adar yn cael eu cadw dan do, dywedodd y Gweinidog wrthym hefyd nad oedd DEFRA wedi rhoi gwybod iddi ymlaen llaw o'r bwriad i lansio Ymgynghoriad ar ddileu'r cyfnod rhanddirymu o 16 wythnos mewn deddfwriaeth safonau marchnata wyau yn Lloegr a'r Alban, a agorodd ar 9 Ionawr 2024 ac a ddaeth i ben ar 5 Mawrth. Dywedodd y Gweinidog wrth yr Aelodau na fu unrhyw drafodaethau â hi ar lefel Weinidogol ynghylch y bwriad i ymgynghori cyn iddi gael llythyr yn gwahodd Cymru i gymryd rhan.

Nid yw'r ymgynghoriad yn berthnasol i Gymru, ac mae'r Gweinidog wedi awgrymu y gallai Llywodraeth Cymru ddilyn trywydd gwahanol i Loegr a'r Alban drwy beidio â dileu'r terfyn amser, gan nodi tryloywder i ddefnyddwyr fel y rheswm dros hynny.

Fel y nodwyd yn y Memorandwm Esboniadol a gyhoeddodd Llywodraeth y DU ar 19 Chwefror 2024 mewn perthynas â rheoliadau'r UE sy'n ymwneud â marchnata wyau, mae hwn yn faes polisi datganoledig sy'n ddarostyngedig i'r fframwaith cyffredin ar gymorth amaethyddol. Mae'r

Fframweithiau Cyffredin hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwahanol weinyddiaethau yn y DU ymgysylltu'n rhagweithiol ynghylch meysydd lle mae posibilrwydd y bydd gwahaniaethau o ran datblygu polisi.

Mae'n ymddangos bod marchnata wyau yn dod o fewn cwmpas yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad sydd wedi'u hymgorffori yn Neddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020. Fel y gwyddoch, o dan yr egwyddor cyd-gydnabod, mae wyau sy'n bodloni'r safonau gofynnol mewn un rhan o'r DU yn gallu cael eu gwerthu mewn unrhyw ran arall o'r DU hyd yn oed os yw'r safonau yno'n wahanol. Mae'r sefyllfa bresennol yn codi pryderon y gallai cynhyrchwyr wyau o Gymru gael eu rhoi dan anfantais gystadleuol os yw'r safonau ar gyfer marchnata wyau fel wyau 'buarth' yn amrywio ar draws gweinyddiaethau'r DU.

O ystyried sylwadau'r Gweinidog am hyd a lled y ddeialog ac ymgysylltiad rhyngweinidogol, hoffai'r Pwyllgor ofyn am gadarnhad y bydd cyfarfodydd rhyngweinidogol rheolaidd yn ailddechrau, ac y bydd dulliau cyfathrebu rhwng Gweinidogion y DU a'r Gweinidogion cyfatebol yng Nghymru yn cael eu defnyddio er mwyn medru ymgysylltu'n adeiladol ynghylch materion sy'n effeithio ar ein cynhyrchwyr bwyd a'n defnyddwyr. Byddai'r Aelodau hefyd yn hoffi cael barn Llywodraeth y DU am y newid posibl yn y drefn o labelu wyau buarth, ac effaith hynny ar Gymru, gan gynnwys disgwyliadau Llywodraeth y DU o ran gweithredu Deddf Marchnad Fewnol y DU mewn perthynas â'r mater hwn.

Cofion cynnes,



Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg